**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **12 GORFFENNAF 2012** |
| TEITL | **SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R CYLCH GORCHWYL NEWYDD DRAFFT I'R PWYLLGOR ARCHWILIO ER YSTYRIAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **SYLWEBU AR Y CYNNWYS** |

---

## 1. PWYLLGOR ARCHWILIO CYNGOR GWYNEDD

1.1 Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd yn 1999, sy'n golygu ei fod yn un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Roedd Cylch Gorchwyl bryd hynny yn seiliedig ar gyhoeddiad y Comisiwn Archwilio *Called to Account - The Role of Audit Committees in Local Government* (1996).

1.2 Ers hynny, mae rôl a phwrpas greiddiol y Pwyllgor Archwilio wedi aros yn gyson, ond gydag amser mae ei rôl wedi datblygu wrth iddo dderbyn swyddogaethau newydd.

1.3 Er fod sefydlu Pwyllgor Archwilio wedi cael ei ystyried yn ymarfer da gan gyrff megis CIPFA ers sawl blwyddyn, gyda gweithrediad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 y maent wedi dod yn fandadol yng Nghymru.

1.4 Er fod y Mesur yn rhoi'r hawl i'r Cyngor osod unrhyw swyddogaethau addas i'r Pwyllgor (a'r Pwyllgor ei hun sydd i benderfynu sut mae i arfer ei swyddogaethau), mae'r Mesur hefyd yn gosod allan swyddogaeth y mae'n rhaid i'r Pwyllgor eu harddel.

1.5 Fodd bynnag, yn ymarferol ychydig o newid fydd i'w weld yn swyddogaeth y Pwyllgor fel y mae yn gweithredu yma yng Ngwynedd yn sgil y gofynion statudol. Un swyddogaeth newydd arwyddocaol yw'r angen i'r Pwyllgor ei hun baratoi adroddiadau penodol, ond ar wahân i hynny gwelir fod y swyddogaethau allweddol eisoes yn cael eu cyflawni gan y Pwyllgor yn barod.

## 2. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

2.1 Mae Cylch Gorchwyl drafft newydd wedi ei gynnwys fel Atodiad. Mae'r cylch gorchwyl yma yn seiliedig ar ofynion y Mesur Llywodraeth Leol a'r Canllawiau Statudol sydd wedi eu paratoi i'w gefnogi. Mae'r rhannau perthnasol o'r Mesur a'r Canllawiau wedi eu cynnwys hefyd.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried cynnwys ei Gylch Gorchwyl drafft a sylwebu ar ei gynnwys.